Hydref

The Wildlife Trust
South and West Wales
De a Gorllewin Cymru

Helpu draenog sy'n gaeafu

Mae niferoedd draenogod dros y DU yn lleihau yn sgil colli cynefinoedd, ffyrdd prysur a rhwystrau sy'n atal symud o gwmpas. Dyw gerddi cymen a thaclus ddim yn cynnig llawer o gyfleoedd i Ddraenogod i greu nyth a gaeafu, felly gallwch helpu drwy adeiladu Blwch Draenog iddyn nhw. Gall hwn fod mor syml neu mor ffansiol ag y dymunwch, gyhyd â'i fod yn sych a bod awyr iach yn gallu mynd iddo.

1. Adeiladwch neu dowch o hyd i focs pren tua 30 x 40 x 30cm o uchder o ran mesuriadau.
2. Adeiladwch fynedfa dwnel neu dwll yn ochr y blwch yr un maint â chlawr CD (13cm x 13cm).
3. Gorchuddiwch lawr y blwch â blawd llif neu bridd.
4. Gorchuddiwch y blwch â deunydd plastig i'w gadw'n sych a gosodwch hwn mewn tomen o ddail neu foncyffion gerllaw tomen gompost neu gornel gysgodol o'r ardd sy'n tyfu'n wyllt.
5. Gadewch rhywfaint o ddeunydd y tu allan er mwyn i'r draenog allu ei gario i'r blwch megis dail neu wellt.

Mae Draenogod angen teithio cryn belter i ddod o hyd i fwyd, dŵr a chymar. Gallwch eu helpu drwy greu coridorau rhwng eich gardd chi a gerddi eich cymdogion. Torwch dwll yn eich ffens, yr un maint â chlawr CD (13cm x 13cm). Bydd hyn yn galluogi Draenogod i fynd a dod fel y mynnont.



Gadewch Eiddew aeddfed heb ei dorri os yn bosib, gan fod hwn yn ffynhonell hwyr gwych o neithdar i bryfetach.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Hydref
Eiddew Neu Iorwg
Verbena Rigida
Gogoniant Yr Hydref

Fforio ffwng

Awgrymiadau arolwg: Yr adeg gorau i fynd allan i chwilio am ffwng yw ar ôl iddi fwrw glaw yn yr hydref. Edrychwch am ffwng ar bren marw, coed byw, yn eich lawnt ac mewn priddoedd.

Amanita'r Gwybed

Capiau Cwyr

Ffwng Clust

Terana caerulea

Scarcoscypha coccinea

Ysgwydd Amryliw

Unrhyw ffwng eraill: